

Uwchsain Gwythïen y Gwddf Mewnol (IJV)

Beth yw hwn?

Mae hwn yn sgan uwchsain o'r brif wythïen (IJV) sydd wedi'i lleoli yn ardal y gwddf.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae'r meddyg wnaeth eich atgyfeirio wedi gofyn am y sgan hwn er mwyn gwirio cyflwr y gwythiennau (yn benodol, os ydynt yn agored neu wedi'u rhwystro). Efallai y bydd angen i ni hefyd gymryd mesuriadau o'r gwythiennau neu wirio'r llif o fewn y gwythiennau.

Sut mae'r sgan uwchsain hwn yn cael ei gyflawni?

Gofynnir i chi naill ai orwedd ar y sofffa sganio neu eistedd yn syth ar gyfer y sgan. Bydd y gwyddonydd clinigol (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn gosod gel ar y chwiliedydd ac yn sganio i fyny ac i lawr eich gwddf ar bob ochr. Bydd hancesi papur yn cael eu rhoi ar eich coler i amddiffyn eich dillad. Dylai'r sgan hwn fod yn ddi-boen ac nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw risgiau. Bydd y goleuadau'n cael eu gostwng fel bod y gwyddonydd yn gallu gweld y sgrin yn well.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canfyddiadau ac yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y meddyg oedd wedi eich atgyfeirio.